Ministry of Justice

# Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol

Cais am Dystiolaeth

**Cais am dystiolaeth a gynhyrchwyd gan Banel yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol**

## Ynglŷn â’r cais hwn am dystiolaeth

| | |
|---|---|
| **I:** | **Holl bartïon sydd â diddordeb** |
| **Hyd:** | O **29/03/21** hyd **18:00** - **07/05/21** |
| **Ymholiadau:** | Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol<br>E-bost: iclar@justice.gov.uk |
| **Sut i ymateb:** | Anfonwch eich ymateb erbyn **07/05/21**<br>Gellir cyflwyno ymatebion ar-lein drwy Consult Justice<br>neu eu hanfon i'r e-bost ICLAR uchod |

**Oherwydd y sefyllfa bresennol o ran COVID-19, mae mynediad i adeiladau'r swyddfa wedi'i gyfyngu. Os hoffech chi gael copi papur, neu os byddai'n well gennych anfon copi caled o'ch ymateb, cysylltwch â ni gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ICLAR uchod.**

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 4
**Holiadur** .......... 5
**Camau Nesaf** .......... 6
**Manylion cyswllt/Sut i ymateb** .......... 6
**Cylch Gorchwyl** .......... 8

# Cyflwyniad

Lansiodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol ym mis Rhagfyr 2018 mewn ymateb i bryderon rhanddeiliaid ynghylch cynaliadwyedd Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn y tymor hir. Mae'r Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn adolygiad cynhwysfawr o gynlluniau ffioedd Cymorth Cyfreithiol Troseddol a'r farchnad o ddarparwyr Cymorth Cyfreithiol Troseddol (bargyfreithwyr, cyfreithwyr a gweithredwyr cyfreithiol).

Yn ystod cam cyntaf yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol, aeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder ati'n gyflym i ystyried rhai agweddau ar y cynlluniau ffioedd (y 'meysydd carlam') yr oedd rhanddeiliaid wedi nodi bod angen eu hadolygu ar frys. Cafodd y meysydd carlam hyn eu hystyried cyn ymgymryd ag adolygiad mwy cynhwysfawr o'r system Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn ei chyfanrwydd (gan gynnwys y cynlluniau ffioedd).

Ym mis Awst 2020, rhoddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y meysydd carlam ar waith gan chwistrellu £35 - £51 miliwn y flwyddyn yn ychwanegol i Gymorth Cyfreithiol Troseddol. Roedd ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad ar y meysydd carlam yn datgan y byddai cam nesaf yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cynnwys adolygiad annibynnol o'r farchnad Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

Mae ail gam yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cynnwys Adolygiad Annibynnol ac mae'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd Cymorth Cyfreithiol Troseddol yng Nghymru a Lloegr yn y tymor hir. Bydd yr Adolygiad yn ystyried y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn ei chyfanrwydd, ac yn anad dim bydd yn ceisio sicrhau ei bod:

a. yn darparu cynrychiolaeth a chyngor cyfreithiol o safon uchel;
b. yn cael ei darparu drwy set amrywiol o ymarferwyr;
c. yn cael ei chyllido'n briodol;
d. yn ymateb i anghenion defnyddwyr nawr ac yn y dyfodol;
e. yn cyfrannu at effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y System Cyfiawnder Troseddol;
f. yn dryloyw;
g. yn gadarn; ac
h. yn cael ei darparu mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian i'r trethdalwr.

Mae Cylch Gorchwyl yr Adolygiad Annibynnol (tudalen 8) yn nodi pum thema: cadernid, tryloywder, cystadleuaeth, effeithlonrwydd ac amrywiaeth y bydd yr Adolygiad yn eu hystyried. Bydd yr Adolygiad hefyd yn ystyried effeithiau'r pandemig ar y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol ac unrhyw gysylltiadau â'r pum thema.

Lle bo modd, bydd yr Adolygiad yn defnyddio'r dystiolaeth bresennol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod cam cyntaf yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol. Bydd yr Adolygiad hefyd yn casglu tystiolaeth newydd drwy amrywiaeth o ddulliau, gyda'r Cais am Dystiolaeth yn nodwedd allweddol.

Mae'r System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn rhyngweithio â rhannau eraill o'r system gyfiawnder ehangach, ac o ganlyniad mae'n gorgyffwrdd â gweithrediad yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, a'r Farnwriaeth, ymysg eraill. O'r herwydd, bydd yr adolygiad yn ystyried sut mae Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn gweithredu o fewn y System Cyfiawnder Troseddol ehangach.

# Holiadur

Mae'r Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol yn croesawu tystiolaeth o dan y Cylch Gorchwyl ac yn gofyn am sylwadau a thystiolaeth yn erbyn y cwestiynau canlynol:

1. Yn eich barn chi, beth yw'r prif broblemau o ran gweithrediad y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol? Tynnwch sylw at unrhyw agweddau neu gamau yn y broses cyfiawnder troseddol sy'n berthnasol i'ch ymateb (gan gynnwys yng ngorsaf yr heddlu; paratoi ar gyfer yr ymddangosiad cyntaf; achosion yn y Llys Ynadon; achosion yn y Llys Ieuenctid; paratoi ar gyfer treial yn Llys y Goron neu unrhyw achosion dilynol).
2. A yw'r cymhellion sy'n cael eu creu gan y cynlluniau ffioedd presennol a'r taliadau yn hybu cynaliadwyedd, ansawdd ac effeithlonrwydd? Esboniwch eich ateb a nodwch pa gynllun ffioedd neu daliad rydych yn cyfeirio ato.
3. A oes unrhyw ryngweithio rhwng gwahanol gyfranogwyr yn y System Cyfiawnder Troseddol, neu ffyrdd o weithio rhwng cyfranogwyr (er enghraifft, yr Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron, a'r Llysoedd), sy'n effeithio ar effeithlonrwydd neu ansawdd y gwasanaethau cymorth cyfreithiol troseddol?
4. Ydych chi'n credu bod gwaith Cymorth Cyfreithiol Troseddol, fel y mae'n cael ei ariannu ar hyn o bryd, yn cynrychioli llwybr gyrfa cynaliadwy ar gyfer bargyfreithwyr, cyfreithwyr neu weithredwyr cyfreithiol?
    - 4.1. Esboniwch y rheswm dros eich ymateb i gwestiwn 4. (uchod).
    - 4.2. A oes unrhyw effeithiau penodol ar gyfreithwyr ifanc, cyfreithwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol penodol, neu ar amrywiaeth o safbwynt ethnigrwydd neu ryw yn y proffesiwn, yr hoffech chi dynnu sylw atynt?
5. A yw strwythur presennol Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn diwallu anghenion diffynyddion, dioddefwyr a thystion? Esboniwch eich ateb.
6. Mae rhai arferion gweithio yn y System Cyfiawnder Troseddol wedi newid oherwydd pandemig y Coronafeirws.
    - 6.1. A oes unrhyw arferion gweithio newydd y byddech yn dymuno eu cadw, a pham?
    - 6.2. A oes unrhyw beth yr hoffech chi dynnu sylw ato o ran effaith y pandemig ar y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol, ac yn arbennig a oes unrhyw wersi i'w dysgu?
7. Pa ddiwygiadau fyddech chi'n eu hawgrymu i ddatrys unrhyw rai o'r problemau rydych chi wedi'u nodi?
8. Bydd yr adolygiad yn cynnal ymarferion eraill i gasglu data ynghylch proffidioldeb y cwmnïau sy'n ymgymryd â gwaith Cymorth Cyfreithiol Troseddol a thâl ymarferwyr amddiffyn troseddol. Fodd bynnag, byddem hefyd yn croesawu sylwadau ar y pwnc hwn fel rhan o'r cais am dystiolaeth.
9. Oes gennych chi unrhyw beth arall yr hoffech ei gyflwyno i'r adolygiad i'w ystyried? Cofiwch gynnwys unrhyw fanylion ategol sy'n briodol yn eich barn chi.

## Camau Nesaf

Bydd y cais am dystiolaeth yn cau am 18:00 ar 7 Mai 2021.

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu cyhoeddi adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth ar GOV.UK cyn diwedd 2021.

## Manylion cyswllt/Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb at iclar@justice.gov.uk

### Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gwynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech

gysylltu â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r cyfeiriad canlynol:

**Y Weinyddiaeth Gyfiawnder**

**102 Petty France**

**Llundain**

**SW1H 9AJ**

Yn ogystal â hyn, dylech hefyd anfon eich cwyn a/neu sylwadau at iclar@justice.gov.uk

### Copïau Ychwanegol

Gellir gwneud cais am gopïau o'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol gan:

iclar@justice.gov.uk

### Cyhoeddi ymateb

Bydd yr ymatebion i'r cais hwn am dystiolaeth yn bwydo i mewn i'r adroddiad terfynol gan yr Adolygiad Annibynnol o Gymorth Cyfreithiol Troseddol, a gyhoeddir ar-lein yn www.gov.uk.

### Grwpiau cynrychioladol

Lle bo'n berthnasol, gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli pan fyddant yn ymateb.

# Cyfrinachedd

Efallai y bydd gwybodaeth a roddir mewn ymateb i'r cais hwn am dystiolaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, yn cael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn bennaf).

Os ydych am i ni drin yr wybodaeth a rowch i ni'n gyfrinachol, cofiwch, o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, fod Cod Ymarfer statudol ar waith y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag ef. Mae hwn, ymhlith pethau eraill, yn ymwneud â dyletswyddau i gadw cyfrinachedd.

Yng ngoleuni hyn, byddai'n help i ni petaech yn esbonio pam rydych o'r farn bod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gyfrinachol. Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG chi, ynddo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Weinyddiaeth.

Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn prosesu unrhyw ddata personol yn unol â'r GDPR.

# Cylch Gorchwyl

## Cwmpas

1. Bydd yr adolygiad yn ystyried y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn ei chyfanrwydd; y gwasanaeth a ddarperir, sut mae'n cael ei gaffael, a sut y telir amdano.
2. Er mwyn ymgymryd â'r dadansoddiad hwn, bydd yr adolygiad yn ystyried y themâu canlynol:
    a. cadernid;
    b. tryloywder,
    c. cystadleuaeth,
    d. effeithlonrwydd; ac
    e. amrywiaeth.
3. Drwy'r themâu hyn, rhoddir ystyriaeth i sicrhau y darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiffynyddion, bod darparwyr yn cael eu gwobrwyo'n briodol am eu harbenigedd, a bod canlyniadau'n cael eu gwella i gymdeithas.
4. **Thema 1: Tryloywder**
Bydd yr adolygiad yn ystyried a ellir gwneud gweithrediad y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn fwy tryloyw i bob parti: i helpu'r Llywodraeth i wneud penderfyniadau caffael mwy gwybodus, i helpu diffynyddion i wneud dewisiadau mwy gwybodus ynglŷn â chynrychiolaeth, ac i helpu darparwyr i gynllunio eu busnesau'n fwy effeithiol. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn mor eang â phosibl, ond bydd yn ystyried y canlynol yn benodol:
    a. **Ansawdd** – Sut mae ansawdd yn cael ei fesur a'i sicrhau mewn marchnadoedd gwasanaeth cyhoeddus eraill (e.e. meddygon, deintyddion ac ysgolion) ac a ellid cymhwyso unrhyw wersi i Gymorth Cyfreithiol. Bydd yr adolygiad yn ystyried ai adolygiad gan gymheiriaid yw'r ffordd orau o gynnal gwasanaethau ymgyfreitha o safon uchel; a fyddai hap-wiriadau o ansawdd eiriolaeth yn ymarferol neu'n gost-effeithiol; ac a fyddai'n ymarferol cael contractau Cymorth Cyfreithiol sy'n mynnu bod eiriolwyr yn ymuno â 'chynllun eiriolaeth cymeradwy' neu'n mynd drwy broses ail-ddilysu.
    b. **Gwybodaeth** – Sut gall y Llywodraeth (a threthdalwyr) fod yn dawel eu meddwl bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n deg ac ar ddarparwyr o ansawdd uchel. Sut gall yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol gael gafael ar, asesu a rhannu digon o wybodaeth am ddarparwyr Cymorth Cyfreithiol i wneud penderfyniadau prynu gwybodus; a allai'r Asiantaeth honno wella'r wybodaeth sydd ganddi ynghylch ansawdd a swm y gwaith a wneir gan ddarparwyr (cwmnïau a chyfreithwyr a bargyfreithwyr unigol). Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut y gellir dangos mwy o benderfyniadau gweinyddol a pholisi i ddarparwyr er mwyn iddynt allu cynllunio eu busnes yn effeithiol.
    c. **Defnyddwyr** – Sut y gellir helpu diffynyddion i ddeall sut mae'r broses yn gweithio, sut y darperir y gwasanaeth a sut y caiff adborth y diffynnydd (defnyddiwr) ei gasglu a'i ddefnyddio i wella'r ddarpariaeth Cymorth Cyfreithiol.
5. **Thema 2: Cadernid**
Bydd yr adolygiad yn ystyried a ellir gwneud y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn fwy cadarn a sut y gall y Llywodraeth sicrhau'r canlynol: bod y sylfaen darparwyr yn sefydlog ac yn gallu ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad; bod darparwyr yn gallu ymuno a gadael y Farchnad yn drefnus heb beryglu'r broses o gyflenwi

gwasanaethau; bod gyrfa yn y proffesiwn amddiffyniad troseddol sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus yn cael ei hystyried yn rhywbeth deniadol; a bod nifer a dosbarthiad y darparwyr yn ddigonol i fodloni'r galw am y gwasanaeth a chynnal mynediad at gyfiawnder ledled Cymru a Lloegr. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn mor eang â phosibl, ond bydd yn ystyried y canlynol yn benodol:

a. **Effeithiau'r System Cyfiawnder Troseddol** – Sut gallai sylfaen darparwyr mwy cadarn gynyddu cadernid yn y system gyfiawnder a hyrwyddo mynediad at gyfiawnder.

b. **Cyfansoddiad y Farchnad** – Pam fod y sylfaen darparwyr (ar ddwy ochr y proffesiwn) yn heneiddio a pham fod cwmnïau cyfreithwyr yn gadael y Farchnad. Bydd yr adolygiad yn ystyried pa nifer a chymysgedd o gwmnïau (maint, arbenigedd a dosbarthiad daearyddol) fyddai'n darparu'r gwasanaeth o'r safon uchaf ledled y wlad tra'n cynnal mynediad at gyfiawnder, ac a oes unrhyw beth y gall y Llywodraeth ei wneud i hybu'r gymysgedd hon. Bydd yr adolygiad hefyd yn ymchwilio a allai darparwyr modelau busnes amgen wneud y Farchnad yn fwy cadarn.

c. **Y Biblinell o Ddarparwyr** – Faint o newydd-ddyfodiaid bob blwyddyn (a pha gyfraddau cadw) sydd eu hangen i gynnal sylfaen darparwyr sefydlog. Bydd yr adolygiad yn ystyried beth allai'r Llywodraeth ei wneud i sicrhau y cynhelir cyfraddau recriwtio a chadw darparwyr digonol.

d. **Proffidioldeb** – Beth yw maint yr elw cyfartalog (a'r cyfraddau cyflog fesul awr) ar gyfer darparwyr a sut mae hyn yn cymharu â darparwyr mewn marchnadoedd gwasanaeth cyhoeddus eraill (gan ystyried incwm, treuliau ac amser a neilltuir i ddarparu gwasanaethau).

e. **Costau trafodiadau ac ymuno â'r farchnad** – Sut gall y Llywodraeth leihau costau trafodiadau ac ymuno â'r farchnad (drwy gynlluniau hyfforddi â chymhorthdal ar gyfer ymarferwyr amddiffyniad troseddol neu ddiwygiadau gweinyddol yn y dyfodol).

6. **Thema 3: Cystadleuaeth**
Bydd yr adolygiad yn ystyried sut mae cystadleuaeth yn gweithredu o fewn y Farchnad ac a yw'n cyfrannu at effeithlonrwydd y Farchnad ar hyn o bryd. Bydd yr adolygiad yn ystyried ymdrechion blaenorol i ddiwygio, a'r gwersi a ddysgwyd o'r ymdrechion hyn. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut y gellir cymell darparwyr i ymuno â'r farchnad, eu hysgogi i arloesi, a'u gwobrwyo am ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn mor eang â phosibl, ond bydd yn ystyried y canlynol yn benodol:

a. **Marchnadoedd y Sector Cyhoeddus** – Sut mae mecanweithiau ar gyfer cyflwyno a rheoleiddio cystadleuaeth yn gweithredu mewn marchnadoedd gwasanaeth cyhoeddus hanfodol eraill (gan gadw nodweddion unigryw Cymorth Cyfreithiol Troseddol mewn cof). Bydd yr adolygiad yn ceisio canfod a oes modd cymhwyso'r arferion gorau ar gyfer defnyddio cystadleuaeth i hyrwyddo cynaliadwyedd ac ansawdd yn y marchnadoedd hynny gyda Chymorth Cyfreithiol Troseddol.

b. **Dewis i ddefnyddwyr** – Sut gall diffynyddion a'r Llywodraeth (yn rhinwedd ei swyddogaeth fel prynwr) gael eu grymuso i wneud dewisiadau mwy gwybodus.

c. **Adolygu Ffioedd** – A allai mecanwaith i adolygu ffioedd sicrhau eu bod yn hyblyg, yn gallu addasu i newidiadau yn amodau'r farchnad, annog darparwyr newydd i ymuno â'r farchnad a chymell darparwyr i wella ansawdd eu gwasanaethau'n barhaus.

7. **Thema 4: Amrywiaeth**
Bydd yr adolygiad yn ystyried sut y byddai mwy o amrywiaeth yn y farchnad darparwyr yn hyrwyddo tegwch yn y System Cyfiawnder Troseddol (ar gyfer diffynyddion, tystion a darparwyr) ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut y gallai mwy o amrywiaeth yn y system hybu mwy o hyder yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn mor eang â phosibl, ond bydd yn ystyried y canlynol yn benodol:

    a. **Rhwystrau** – Beth yw'r rhwystrau sy'n atal mynediad, cadw a datblygu gyrfa yn y proffesiwn Cymorth Cyfreithiol Troseddol ar gyfer unigolion â nodweddion gwarchodedig neu sydd o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is neu i unigolion sy'n gweithio mewn rhannau penodol o Gymru a Lloegr.

    b. **Amrywiaeth o ran Darparwyr** – Dulliau ar gyfer annog cyfranogwyr amrywiol i ymuno â'r farchnad – gan gynnwys ysgoloriaethau. Bydd yr adolygiad yn parhau i ystyried sut mae amrywiaeth o ran darparwyr yn effeithio ar weddill y System Cyfiawnder Troseddol (ac amrywiaeth y farnwriaeth yn benodol).

    c. **Canlyniadau i Ddifinyddion** – Bydd yr adolygiad yn ystyried sut mae'r System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn diwallu anghenion unigolion â nodweddion gwarchodedig ac a ellid cymryd camau pellach i helpu'r unigolion hyn. Bydd yr adolygiad yn rhoi ystyriaeth benodol i argymhellion Adolygiad Lammy ynghylch dewis i gleientiaid a mynediad at gyngor cynnar gan eiriolwyr.

8. **Thema 5: Effeithlonrwydd**
Bydd yr adolygiad yn ystyried i ba raddau y mae Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cyfrannu at effeithlonrwydd y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd yr adolygiad yn ceisio canfod y ffordd fwyaf effeithlon o sicrhau bod diffynyddion yn derbyn cyngor amserol o safon uchel a sut y gallai'r Llywodraeth gyflawni'r canlyniad hwn. Bydd yr adolygiad yn ymdrin â'r pwnc hwn mor eang â phosibl, ond bydd yn ystyried y canlynol yn benodol:

    a. **Beichiau gweinyddol** – Sut mae gofynion gweinyddol yn effeithio ar ddarparwyr. Sut mae hyn yn cymharu â sectorau tebyg eraill (meddygon, deintyddion, cwnselwyr ac ati) ac a ddylid diwygio'r polisïau sylfaenol er mwyn lleihau costau gweinyddol y Llywodraeth a darparwyr. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried sut y gellid gwneud systemau a chontractau yn fwy hyblyg er mwyn galluogi darparwyr i arloesi neu addasu i newidiadau yn amodau'r farchnad.

    b. **Effeithlonrwydd y Farchnad –** A yw strwythur y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cymell neu'n galluogi dulliau modern a chymesur o gyflenwi gwasanaethau. Bydd yr adolygiad yn ystyried a allai newidiadau o ran pryd a sut y darperir cyngor arwain at fwy o effeithlonrwydd yn y System Cyfiawnder Troseddol. Bydd yn archwilio a ellir addasu gofynion contractau i alluogi darparwyr i archwilio dulliau newydd o ddarparu cyngor a chynrychiolaeth. Bydd yr adolygiad hefyd yn ystyried a fyddai mabwysiadu modelau busnes darparwyr amgen yn hybu effeithlonrwydd.

    c. **Addasiadau Trefniadol y System Cyfiawnder Troseddol** – A oes modd gwella neu ategu effeithlonrwydd gwasanaethau'r darparwyr drwy ymgymryd ag addasiadau cymesur i brosesau a gweithdrefnau'r System Cyfiawnder Troseddol (ac os felly, beth fyddai'r newidiadau hyn).

***Y tu allan i'r cwmpas***

9. Mae'r adolygiad yn ymwneud â'r farchnad Cymorth Cyfreithiol Troseddol ac ni fydd yn ystyried cynaliadwyedd Cymorth Cyfreithiol Sifil ac i Deuluoedd, ond bydd yr adolygiad yn nodi lle gallai materion sy'n effeithio ar Gymorth Cyfreithiol Sifil ac i Deuluoedd effeithio ar gynaliadwyedd y System Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

10. Ni fydd y gwaith presennol ar gymhwysedd ar gyfer Cymorth Cyfreithiol Troseddol yn cael ei ystyried fel rhan o'r Adolygiad Annibynnol, ac eithrio lle gallai newidiadau i gymhwysedd ariannol fod yn sail neu ryngweithio â model sylweddol wahanol ar gyfer darparu Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

11. Dylai'r adolygiad ystyried a yw'r strwythurau ar gyfer ffioedd yn briodol at ei gilydd ar gyfer y gwaith a wneir gan ddarparwyr ac a yw strwythur a gweithrediad y cynlluniau ffioedd yn cefnogi'r canlyniadau ym mharagraff 9. Ni ddylai'r adolygiad wneud argymhellion penodol ar ffioedd unigol.

12. Ni fydd yr adolygiad ond yn ystyried darparu Cymorth Cyfreithiol Troseddol yng Nghymru a Lloegr, er y gellir ystyried systemau a diwygiadau mewn awdurdodaethau eraill pan fyddant yn rhoi syniad defnyddiol o sut y gallai diwygiadau effeithio ar y ddarpariaeth o Gymorth Cyfreithiol Troseddol yng Nghymru a Lloegr.

## Proses

13. Bydd yr Adolygiad Annibynnol yn ceisio datblygu cynigion a dod i gasgliadau drwy werthuso amrywiaeth eang o ffynonellau.

14. Bydd yr adolygiad yn ceisio defnyddio'r dystiolaeth bresennol lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys y canlynol: Setiau Data Cymorth Cyfreithiol a'r wybodaeth a gafwyd yn ystod cam cyntaf yr Adolygiad Cymorth Cyfreithiol Troseddol (gan gynnwys adborth gan grwpiau ffocws a'r data meintiol a gafwyd gan Gymdeithas y Cyfreithwyr yng Nghymru a Lloegr, Cyngor y Bar, a Gwasanaeth Erlyn y Goron drwy gytundebau Rhannu Data).

15. Bydd yr adolygiad yn casglu tystiolaeth newydd, lle bo angen, i sicrhau bod yr argymhellion yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r farchnad. Gellir casglu tystiolaeth newydd drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):

    a) dwyn ynghyd a gwerthuso ymchwil academaidd, adroddiadau, arolygon a chronfeydd data presennol ar ddarparu Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

    b) comisiynu arolygon o ddiffynyddion;

    c) ymgysylltu â phartïon allweddol sydd â diddordeb gan gynnwys: rheoleiddwyr y sector, cyrff sy'n cynrychioli'r sector, sefydliadau defnyddwyr, a'r Ombwdsmon Cyfreithiol; a

    d) chyfweliadau ansoddol manwl pellach, arolygon a grwpiau ffocws gydag ymarferwyr (lle bo hynny'n briodol).

16. Bydd yr adolygiad hefyd yn ceisio casglu ac ystyried gwybodaeth ynglŷn â gweithrediad marchnadoedd gwasanaeth cyhoeddus eraill a allai ddarparu modelau i'w hystyried a'u cymharu.

17. Bydd yr adolygiad yn ystyried adolygiadau blaenorol o'r sector Cymorth Cyfreithiol ac ymdrechion blaenorol i ddiwygio a bydd yn sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r profiadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn ei syniadau polisi.

## Adrodd ac Allbwn

18. Bydd allbwn terfynol yr adolygiad yn adroddiad a gyflwynir i'r Arglwydd Ganghellor. Bydd yr adroddiad yn nodi argymhellion ar gyfer diwygio'r system Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

19. Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn gweithio gydag Adrannau eraill o'r Llywodraeth sydd â diddordeb er mwyn nodi amserlenni ar gyfer cyhoeddi'r adroddiad. Mae'r

Weinyddiaeth Gyfiawnder yn bwriadu cyhoeddi'r adroddiad ochr yn ochr ag ymateb y Llywodraeth ar GOV.UK cyn diwedd 2021.

20. Dilynir yr adroddiad gan ymgynghoriad ar unrhyw ddiwygiadau arfaethedig i'r System Cymorth Cyfreithiol Troseddol.

21. Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn ceisio cynhyrchu adroddiad interim a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed a'r canfyddiadau cychwynnol. Nod y Weinyddiaeth Gyfiawnder fydd cyhoeddi'r adroddiad hwn ar GOV.UK.

22. Efallai y bydd yr adolygiad hefyd yn cyhoeddi crynodebau o unrhyw dystiolaeth ychwanegol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad.

**Mae'r Cylch Gorchwyl llawn wedi'i gyhoeddi yma.**